# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## (CWLS(2) 09-05 (p4))

### Dyddiad y cyfarfod: 29 Medi 2005

### Amser y cyfarfod: 09:00am tan 12:20 pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## MESUR Y LOTERI GENEDLAETHOL

### Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor ar yr agweddau Cymreig ym Mesur y Loteri Genedlaethol.

### Y Cefndir

2. Cyflwynwyd Mesur y Loteri Genedlaethol yn wreiddiol yn y Senedd yn dilyn araith y Frenhines ar 23 Tachwedd 2004. Serch hynny, oherwydd yr Etholiad Cyffredinol, ni aeth drwy'r Senedd. Yn dilyn araith y Frenhines ar 17 Mai 2005, ail gyflwynwyd y Mesur ar 24 Mai.

### Crynodeb

3. Prif elfen y Mesur yw sefydlu’r Gronfa Loteri Fawr yn ffurfiol. Mae'n cynnwys darpariaethau i alluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i:

- nodi'r canlyniadau a'r blaenoriaethau sydd i'w cynnwys yn rhaglenni y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru ( o fewn fframwaith gyffredinol y DU);
- cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi i'r Gronfa Loteri Fawr, mewn perthynas â Chymru;
- cytuno i benodi aelod o Gymru ar Fwrdd y DU; a
- chytuno i benodi aelodau i bwyllgor Cymru.

4. Gyda'i gilydd mae'r darpariaethau hyn yn rhoi digon o ddylanwad i ni ar gyfer pennu ffurf a chyfeiriad gweithgareddau'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru.

5. Er nad yw'r Mesur yn ddadleuol iawn, mae'r darpariaethau ar gyfer ailddyrannu'r llog a enillwyd ar yr hyn sy’n weddill rhwng y dosbarthwyr wedi cael ychydig o feirniadaeth, yn enwedig o'r sector treftadaeth - ar hyn o bryd Cronfa Dreftadaeth y Loteri sydd â'r cronfeydd mwyaf heb eu gwario.

## Y Camau Nesaf

6. Darllenwyd y Mesur am yr eildro ar 14 Mehefin 2005, a disgwylir iddo fynd drwy'r broses bwyllgorau ym mis Hydref, cyn mynd i D'r Arglwyddi.

## Goblygiadau Ariannol

7. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn sgil y papur hwn.

## Cydymffurfio

8. Mae Adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn caniatáu i'r Cynulliad ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru, a chyflwyno sylwadau priodol amdano. Os caiff y Mesur Loteri Genedlaethol ei gymeradwyo, bydd yn datganoli pwerau cyfarwyddo ychwanegol i'r Cynulliad. Nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Alun Pugh AC**

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**